Dylai – *Ought to*

Themau - *Themes*

Dylai – *ought to*

Patrymau Iaith - *Language patterns*

Dylai – *ought to / should*

Dylet ti fwyta brecwast *You ought to eat breakfast*

Mae treiglad meddal ar ôl pob person - *A soft mutation follows each person*

Dylwn i	*I ought to*
Dylet ti	*You ought to*
Dylai hi /fe/ y plant	*She/he/the children ought to*
Dylen ni	*We ought to*
Dylech chi	*You ought to*
Dylen nhw	*They ought to*

Esiamplau ychwanegol - *Extra examples*

Mae treiglad meddal i'r negyddol a'r cwestiwn.
There is a soft mutation with the negative and question form.

Ddylwn i wisgo'r ffrog briodas? *Should I put the wedding dress on?*

Yn y gorffennol rhaid defnyddio 'bod wedi'.
To convey the past - I ought to have - we need to use 'bod wedi'

Dylwn i **f**od wedi rhedeg i ffwrdd – *I ought to have run away*
Ddylwn i ddim **b**od wedi trefnu priodas fawr - *I shouldn't have arranged a big wedding*

Ateb cwestiwn – *answering questions.*

Ddylet ti gario hances?	*Should you carry a hanky?*	Dylwn / Na ddylwn
Ddylwn i wisgo'r ffrog?	*Should I put the dress on?*	Dylet / Na ddylet

Tasgau - *Tasks*

Tasg sain 1 / *Audio task 1*

Newidiwch y ffaith sy DDIM yn gywir yn y brawddegau hyn.
Change the fact that is NOT correct in these sentences.

Mae Bethan yn rhy nerfus i fwyta cinio.
Dylai Siân gyrraedd am wyth o'r gloch.
Dylai hi wisgo mwclis mam.
Does dim byd gwyrdd gyda hi.
Dylai hi fod wedi rhedeg i ffwrdd gyda Mam-gu.

Tasg sain 2 / *Audio task 2*

Atebwch y cwestiynau hyn.
Answer these questions.

Pam mae Sara a James ar goll?
Pryd dylen nhw fod wedi cyrraedd?
Pam dylen nhw ffonio?
Ble dylen nhw fod wedi troi?
Pam dylai James fod wedi gwrando ar Sara?
Pam dyw hi ddim eisiau gyrru?

Sgript Sain 1 – *Audio Script 1*

Mam: Wel mae'r diwrnod mawr wedi cyrraedd. Diwrnod dy briodas di a Huw. Brecwast?

Bethan: O, dim diolch Mam.

Mam: Dim brecwast! Dylet ti fwyta brecwast.

Bethan: Dylwn, dw i'n gwybod, ond dw i'n rhy nerfus.

Mam: Ddylai Siân fod yma i wneud dy wallt erbyn hyn?

Bethan: Na ddylai. Dim eto. Mae hi'n dod erbyn naw o'r gloch.

Mam: Beth am y ferch golur?

Bethan: Dylai hi gyrraedd am naw o'r gloch hefyd.

Mam: O da iawn.

.....

Mam: Wel rwyt ti'n hardd iawn cariad!

Bethan: Diolch Mam. Faint o'r gloch yw hi?

Mam: Mae hi'n chwarter wedi unarddeg.

Bethan: Ddylwn i wisgo'r ffrog briodas nawr te?

Mam: O, dylet, a chofia, dylet ti wisgo mwclis Mam-gu - maen nhw'n hen iawn! Dylai pob priodferch wisgo rhywbeth hen a rhywbeth newydd...

Bethan: Wel mae digon o bethau newydd gyda fi.

Mam: A rhywbeth glas!

Bethan: Does dim byd glas gyda fi!

Mam: Beth am ddillad isa glas?

Bethan: Mam! Mae'n rhy hwyr. Ddylwn i ddim bod wedi trefnu priodas fawr. Dylen ni fod wedi rhedeg i ffwrdd. Dylen ni fod wedi cael priodas dawel – dim ond Huw a fi!

Geirfa

priodas – *wedding*
colur – *make-up*
mwclis – *beads*
priodferch - *bride*
dillad isa - *underwear*
tawel - *quiet*

Sgript Sain 2 – *Audio Script 2*

SAT NAV: Dych chi wedi cyrraedd pen eich taith.

Sara: Ble dyn ni?

James: Ym....

Sara: Ar goll. Dyna ble dyn ni! Eto! Achos y *sat nav*!

James: Dylai hi fod yn gwybod y ffordd.

Sara: Dylai! Dylen ni fod wedi cyrraedd hanner awr yn ôl gyda dy *sat nav* annwyl di!

James: Dylen nhw fod wedi anfon map aton ni.

Sara: Dylen ni fod wedi cyrraedd hanner awr yn ôl. Dylet ti eu ffonio nhw.

James: Beth? A dweud "Dylech chi fod wedi anfon map aton ni!" ?

Sara: Dylen ni esbonio bod ni'n hwyr. A gofyn sut i gyrraedd.

James: Gofyn sut i gyrraedd? Aha! Dyma fap! O. Falle dylen ni fod wedi troi i'r chwith wrth y capel.

Sara: Hy! Dyna beth ddwedais i! Falle dylet ti wrando arna i dim arni hi.

James: Falle dylet ti yrru!

Sara: Beth? A gadael i ti ddarllen y map? Dim diolch yn fawr. Dylech chi droi'n ôl nawr.

Geirfa

pen eich taith – *journey's end*
anfon – *to send*

Atebion - *Answers*

Tasg sain / *Audio task*

Mae Bethan yn rhy nerfus i fwyta **brecwast.**
Dylai Siân gyrraedd am **naw** o'r gloch.
Dylai hi wisgo mwclis **Mam-gu.**
Does dim byd **glas** gyda hi.
Dylai hi fod wedi rhedeg i ffwrdd gyda **Huw.**

Tasg fideo / *Video task*

Pam mae Sara a James ar goll? Achos y *sat nav*.
Pryd dylen nhw fod wedi cyrraedd? Dylen nhw fod wedi cyrraedd hanner awr yn ôl.
Pam dylen nhw ffonio? Dylen nhw ffonio i ddweud byddan nhw'n hwyr.
Ble dylen nhw fod wedi troi? Dylen nhw fod wedi troi wrth y capel.
Pam dylai James fod wedi gwrando ar Sara? Dylai fe fod wedi gwrando achos dwedodd hi dylen nhw fod wedi troi wrth y capel.
Pam dyw hi ddim eisiau gyrru? Dyw hi ddim eisiau gyrru achos dyw hi ddim eisiau iddo fe ddarllen y map.